# Gwasanaethau anabledd dysgu



Tudalen hawdd i'w darllen am wasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu.



Mae'r dudalen hon yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd os oes gennych chi  (neu rywun rydych chi'n ei adnabod) anabledd dysgu a'ch bod yn meddwl bod angen help arnoch.

Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn i gael help.



## Beth yw anabledd dysgu?

Anabledd dysgu yw:

- Pan fyddwch chi'n ei chael hi'n anodd deall gwybodaeth newydd neu gymhleth neu ddysgu sgiliau newydd
- Pan fyddwch chi'n cael ei chael hi'n anodd ymdopi ar eich pen eich hun
- Rhywbeth a ddechreuodd cyn i chi ddod yn oedolyn sydd wedi cael effaith hirdymor ar eich datblygiad.



## Asesu

Yn gyntaf, bydd rhaid i chi gael asesiad gan weithiwr cymdeithasol i weld a allwn ni helpu.

Yn yr asesiad, bydd rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol gael ychydig o wybodaeth amdanoch, siarad gyda chi am y wybodaeth honno a gweithio allan pa wasanaethau y gallwn eu cynnig i chi.



## Asesiad gofalwr

Os oes gofalwr gennych byddwn yn cynnig asesiad gofalwr iddo.

Nid yw cael asesiad bob amser yn golygu y byddwn yn rhoi gwasanaeth i chi.



## Beth sy'n digwydd nesaf?

Os **na allwn** gynnig gwasanaeth i chi, byddwn yn rhoi gwybod i chi am bobl eraill a allai eich helpu, fel gwasanaethau iechyd a sefydliadau eraill.

Os **gallwn** gynnig gwasanaeth i chi, byddwn yn:

- siarad gyda chi a'ch gofalwyr am eich anghenion
- ceisio dod o hyd i'r help rydych ei angen neu roi arian i chi i brynu'r cymorth sydd ei angen arnoch (Taliadau Uniongyrchol).



### Pa fath o help alla i ei gael?

Darllenwch y wefan nesaf, Pa fath o help alla i ei gael?, i gael rhagor o wybodaeth am y mathau o gymorth y gallwch eu cael gan y Gwasanaethau Anabledd Dysgu.





## Cysylltu â ni

Os hoffech ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn, cysylltwch â ni.

Ffôn: 029 2053 6111
Tŷ Gabalfa
213A Heol y Gogledd
Caerdydd
CF14 3GH